**Cyfarfod: Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Lleoliad: *Teams***
**Dyddiad: 02 Hydref**
10.30y.b. – 1.30y.h.

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Ms Kate Curran (KC) Cadeirydd<br>Mr Farhan Shakoor (FS)<br>Ms Julie James (JJ)<br>Ms Caroline Wheeler (CW)<br>David Macgregor (DM) |
| **Mynychwyr y Cyd-bwyllgor Archwilio** | DBG Ifan Charles, Dirprwy Brif Gwnstabl (IC)<br>Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DLl)<br>Ms Carys Morgans, Prif Swyddog Gweithredol (CM)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (EH)<br>Ms Nicola Davies, Prif Swyddog Cyllid Dros Dro (ND)<br>Mr Jason Blewitt, Archwilio Cymru (JB)<br>Ms Fiona Roe, TIAA (FR)<br>Mr Jonathon Maddock, TIAA (JM)<br>Ms Gaynor Maddox, Pennaeth Rhaglenni a Newid (GM)<br>Ms Michelle Reynolds, Pennaeth Cyllid Dros Dro (MR)<br>Mr Neil Evans, Rheolwr Busnes, SCHTh (NE)<br>Yr Arolygydd Richard Janas, Archwilydd, Archwiliad AHEF (RJ)<br>Y Ditectif Arolygydd Siân Davies, Ymchwilydd, Safonau Proffesiynol (SD)<br>Ms Danielle Rotberg, Arbenigwr Cyflogres (DR)<br>Mr Stephen Havard, Pennaeth TGCh (SH)<br>Mr Mark Hall, Uwch Reolwr Gweithredol TGCh (MH)<br>Ms Debby Jones, Rheolwr Gwybodaeth (DJ) |
| **Ymddiheuriadau** | Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl<br>Ms Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol |
| **Datganiadau o Fuddiant:** | Dim |

Heddlu Police DYFED-POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 14 Mawrth 2024 | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r camau i'w cymryd** | **I'w symud ymlaen gan** | **Cynnydd** |
| A53 | Bod y cylch cynllunio a sicrwydd yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Archwilio | Yr Uwch-arolygydd dros dro Louise Harries | **Wedi'i Gwblhau –** Ystyriwyd y cylch cynllunio a sicrwydd yn y Seminar ar y Datganiad o Gyfrifon ar 6 Tachwedd. |
| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 31 Gorffennaf 2024 | | | |
| A14 | Bod y pwyllgor yn cynnal hunanasesiad o'r broses archwilio fewnol a gynhaliwyd gan TIAA ymhen 12-18 mis. | Prif Swyddog Cyllid | **Ar y gweill** - cynhelir hunanasesiad o'r broses archwilio fewnol ac adroddir yn ôl i'r pwyllgor yn 2025/2026 |
| A17 | Bod TIAA yn adolygu'r canlyniadau sydd wedi'u cynnwys yn yr Adolygiad Cydweithredol o'r Ddeddf Diogelu Data i ddeall y rhesymeg y tu ôl i'r canlyniadau a bod adroddiad diwygiedig yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor. | FR | **Ar y gweill** - bydd yr adroddiad yn cael ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf. |
| A18 | Bod y Grŵp Llywodraethu Archwilio yn sefydlu ac yn cynnal rôl i sicrhau y cedwir at unrhyw weithdrefnau rheoli a nodir trwy adolygiadau archwilio mewnol a'u bod yn cael eu gweithredu. | Prif Swyddog Cyllid/Prif Swyddog Gweithredol | **Wedi'i Gwblhau –** Adolygir y Cylch Gorchwyl yng nghyfarfod fis Medi |
| A19 | Bod y Cyd-bwyllgor Archwilio yn adolygu'r cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion yn yr adolygiad cydweithredol o Delemateg ym mis Ionawr 2025. | Y Cyd-bwyllgor Archwilio | **Ar y gweill** - bydd hyn yn cael ei gynnwys yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2025. |
| A24 | Bod ystyriaeth yn cael ei roi i gynnwys adolygiad o bolisi a gweithdrefnau chwythu'r | Grŵp Llywodraethu Archwilio | **Ar y gweill** – Bydd hyn yn cael ei ystyried |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chwiban yng Nghynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2025/26 | | gan y Grŵp Llywodraethu Archwilio |

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
2. **Datganiadau o fuddiant**
3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2024**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2024 fel cofnod cywir gan y Pwyllgor.

4. **Adolygiad o Gamau Gweithredu Heb eu Cyflawni**

Trafododd y pwyllgor y camau gweithredu a ganlyn o gyfarfodydd blaenorol:-

A17– Cynhelir cyfarfod rhwng FR ac FS cyn bod gwybodaeth bellach yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

A18 – Cadarnhaodd CM bod hyn wedi'i drafod yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Llywodraethu Archwilio a chynghorodd bod y Cylch Gorchwyl wedi'i gymeradwyo. Bydd hyn yn arwain at fwy o ffocws ar reoliadau mewnol ac, yn hollbwysig, y cyfathrebu o ran sylwadau rheolwyr.

5. **Cynllun Gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio**

Cynghorodd NE bod y cynllun gwaith wedi'i lunio gan ystyried Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ond bod perygl iddo fod yn drwsgl oherwydd y ffordd yr oedd yn cael ei ddefnyddio nawr. Cynigiodd NE i'r aelodau bod dogfen yn cael ei chreu ar ôl cytuno ar ddyddiadau cyfarfod 2025 er mwyn sicrhau bod aelodau'n gallu gweld yr adroddiadau sydd fod cael eu cyflwyno ym mhob cyfarfod. Cytunodd y Pwyllgor â'r awgrym.

Rhoddodd JB ddiweddariad i'r aelodau ar gynnydd yr archwiliad allanol mewn perthynas â chyfrifon 2023/24, a ddylai allu gael eu cwblhau erbyn diwedd Hydref ac felly mewn sefyllfa i gwrdd â'r pwyllgor archwilio erbyn diwedd Tachwedd i gymeradwyo'r cyfrifon yn swyddogol.

**CAM GWEITHREDU A27 – Bod dogfen ychwanegol yn cael ei datblygu i ategu'r cynllun gwaith presennol sy'n cynnwys mecanwaith i Aelodau gweld unrhyw newidiadau agenda.**

6. **Derbyn diweddariad o gyfarfod y Grŵp Llywodraethu Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Medi 2024, gan gynnwys yr Adroddiad Cryno Blynyddol ar amseroldeb adroddiadau archwilio.**

Rhoddodd MR ddiweddariad o’r cyfarfod Llywodraethu Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Medi. Cynghorodd MR fod y ffocws ar ochr gydweithredol y busnes ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol tebyg i heddluoedd eraill. Bu cynnydd da mewn perthynas ag archwiliadau mewnol 2024/25 ac mae pob un wedi’i amserlennu. Mae’r grŵp hefyd yn monitro argymhellion ac yn sicrhau bod diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi, gan weithio’n agos â TIAA.

Dywedodd DLl ei bod hi’n ymddangos fel pe bai angen i rywbeth penodol ddigwydd mewn perthynas â chynlluniau wrth gefn, ond mae’r weithred yn wahanol i’r hyn y dywed yr argymhelliad. Bydd GM yn adolygu ac yn diweddaru’r sylwadau’n unol â hynny.

Gofynnodd KC am eglurder mewn perthynas â tharged 10 diwrnod y dangosydd perfformiad allweddol a pha un ai a ellid rhoi mwy o wybodaeth er mwyn caniatáu i’r Pwyllgor gael gwell dealltwriaeth.

Cynghorodd MR fod targed o 10 diwrnod ar gyfer paratoi adroddiad drafft yn dilyn y cyfarfod gadael rhwng yr Heddlu a TIAA. Cynghorodd FR ei bod hi’n anghyffredin iawn gweld y targed yn cael ei fodloni ar draws y sector, ond roedd hyn oherwydd nifer yr unigolion y disgwylir iddynt sylwi ar adroddiad terfynol weithiau yn gyffredinol.

Cododd FS fater gyda’r cynllun archwilio mewnol mewn perthynas â’r dyddiau a neilltuwyd ar gyfer yr adolygiadau seiberddiogelwch a rheoli newid lle mae 8 a 10 diwrnod wedi’u neilltuo yn ôl eu trefn. Dywedodd FS y byddai’n fwy buddiol treulio mwy o amser yn ymgymryd ag adolygiad o seiberddiogelwch oherwydd ehangder y pwnc yn hytrach na threulio mwy o ddiwrnodau ar reoli newid, sy’n un maes pwnc.

Dywedodd FR bod yr amseriadau wedi’u datblygu drwy ystyried adolygiadau blaenorol o’r meysydd. Cynghorodd FR y byddai’n ystyried cwmpasau’r adolygiadau ac yn cynghori pa un ai a oedd yr amseriadau’n briodol.

**Cam Gweithredu A28 – Bod adroddiad ar berfformiad dangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas â’r targed 10 diwrnod ar ymatebion archwiliadau mewnol yn cael ei roi i’r Pwyllgor ar sail chwarterol.**

**Cam Gweithredu A29 - Bod TIAA yn ystyried nifer y dyddiau a bennir i adolygiadau penodol er mwyn sicrhau bod amserlenni’n ymarferol ar gyfer y maes sydd dan adolygiad.**

**Cam Gweithredu A30 – Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i’r Aelodau er mwyn tynnu sylw at y newidiadau i’r Safonau Llywodraethu Archwilio a’r hyn mae’n ei olygu ar gyfer safonau adrodd.**

**7. Ystyried camau gweithredu cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2024 (Cyfarwyddwr Cyllid)**

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad wrth EH am gamau gweithredu'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gyfarfu ar 1 Hydref. Cynghorwyd y Pwyllgor bod trafodaethau am yr archwiliad allanol a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r archwiliad o'r datganiad o gyfrifon. Cynghorodd EH y byddai AHGTAEF yn cwrdd â'r Heddlu yn ystod yr wythnos yn cychwyn 7 Hydref er mwyn trafod y meysydd y mae angen eu gwella sy'n weddill a materion archwilio cyffredinol. Cafwyd trafodaethau pellach ar Gofrestr Risg yr Heddlu a derbyniwyd diweddariad ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Ni chodwyd unrhyw faterion.

Derbyniodd y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol ddiweddariad ar yr adolygiad o bolisïau a chynghorwyd bod proses dda yn gyffredinol, ond codwyd rhai materion mewn perthynas â chapasiti gyda'r Adran Safonau Proffesiynol a'r Gymraeg a chymerwyd cam gweithredu o'r cyfarfod er mwyn sicrhau bod cynnydd pellach yn cael ei wneud.

**8. Ystyried yr adroddiadau canlynol gan yr archwilwyr mewnol:**

**a. Ystyried Adroddiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno 2023/24**

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno. Crynhodd JM yr archwiliadau o ran y canlyniadau cyffredinol a nifer yr argymhellion. Cynghorodd JM y bu oedi o ran rhai adolygiadau cydweithredol lle'r oedd yr oedi'n ymwneud ag aros am wybodaeth, fodd bynnag, nid oedd yr oedi i'w briodoli i Heddlu Dyfed-Powys. Rhoddodd JM ddiweddariad ynghylch statws sawl adroddiad a fydd ar gael i'r Pwyllgor eu hystyried yn eu cyfarfod nesaf, gan gynnwys iechyd a diogelwch, storfeydd lifrai a rheoli risg. Cynghorodd JM fod cynnydd da'n cael ei wneud a bod yr holl adolygiadau ar gyfer y flwyddyn wedi'u trefnu. Roedd yr adroddiad hefyd yn crynhoi'r briffiau cleient a diweddariad i'r safonau archwilio mewnol byd-eang.

**b. Ystyried yr Adolygiad Cydweithredol o Reoli Fflyd – Defnydd o Danwydd**

Cyflwynodd JM yr adolygiad i'r pwyllgor, a chadarnhaodd fod sicrwydd sylweddol wedi'i roi heb unrhyw argymhellion. Nododd JM fod hwn yn adroddiad boddhaol o'i gymharu â'r adroddiad blaenorol, lle'r oedd materion wedi'u canfod mewn perthynas â'r defnydd anghywir o danwydd.

c. Ystyried yr Adroddiad Sicrwydd o Gofnodi Troseddau

Cyflwynodd JM yr Adroddiad Sicrwydd o Gofnodi Troseddau i'r pwyllgor lle rhoddwyd sicrwydd rhesymol cyffredinol iddo. Roedd JM eisiau dwyn sylw'r pwyllgor i'r tri argymhelliad blaenoriaeth dau. Roedd yr un cyntaf yn ymwneud â dogfen weithdrefn neu lif gwaith coll ar gyfer dibenion archwilio Cofnodi Troseddau a bod yr argymhelliad wedi'i gytuno ac y byddai map proses llif gwaith yn cael ei gwblhau. Yr ail argymhelliad yw anghysonder o fewn y ffigurau dangosfwrdd. Mae'r trydydd argymhelliad yn ymwneud â materion o fewn canlyniadau a'r angen ar gyfer ychwanegu'r rhain i'r dangosfwrdd fel bod modd cipio unrhyw faterion unplygrwydd data'n ffurfiol. Nododd JM fod hwn yn ganlyniad da yn gyffredinol.

Mynegodd DM bryder mewn perthynas â'r ffigurau anghysondeb yn dilyn adolygiad o dudalen troseddau a gollwyd y dangosfwrdd a holodd pa un ai a oedd angen darn o waith dilynol yn 2025/26 er mwyn monitro cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion.

Cynghorodd CM fod y lefel hon o graffu'n cael ei chroesawu, fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor ystyried y gallai fod adolygiadau eraill wedi'u cynllunio ar gyfer y maes a bod angen sicrhau bod dyblygu gwaith yn cael ei osgoi pan fod modd.

Cadarnhaodd KC gam gweithredu i'w roi ar waith i SCHTh gynghori ynghylch y ffordd orau o fynd â'r mater yn ei flaen.

**Cam Gweithredu A31 – Bod SCHTh yn cymryd rhan arweiniol o ran sicrhau bod yr argymhellion a geir o fewn yr adolygiad sicrwydd o Gofnodi Troseddau'n cael eu datblygu, gan sicrhau nad oes dyblygu o ran mecanweithiau adolygu.**

ch. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Reoli Risg

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Sicrwydd o Reoli Risg a dderbyniodd sicrwydd rhesymol. Nododd y Pwyllgor fod dau argymhelliad blaenoriaeth dau. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r angen i Adrannau ddefnyddio cofrestri risg, ac roedd yr ail yn ymwneud â'r angen ar gyfer adolygu risgiau i gadarnhau pa un ai a oedd y sgorau rhwng risgiau cynhenid a gweddilliol wedi newid.

Mynegodd KC bryder o gwmpas hyfforddi staff, a theimlai bod sylwadau rheolwyr yn amwys. Mae TIAA wedi dweud nad oes ffordd o fonitro neu gofnodi pwy sydd wedi gwneud yr hyfforddiant neu ei ddilyn drwodd neu wylio'r fideo, a sylwadau'r

rheolwyr oedd 'byddwn ni'n ei ddarparu'. Holodd KC pa un ai a oedd yr Heddlu'n fodlon â'r ymateb hwnnw.

Cadarnhaodd GM mai ei thîm hi sy'n gyfrifol. Bydd yn adolygu'r sylwadau ac yn cymryd camau i lunio rhyw fath o gynllun hyfforddi ar gyfer rheolwyr risg.

Soniodd KC nad oes angen gweld cynllun hyfforddi, ond hoffai weld adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl i'r cyfarfod nesaf gyda sylwadau gan reolwyr, gyda chamau gweithredu a chynllun.

**Cam Gweithredu A32 – Bod yr adroddiad o'r adolygiad sicrwydd o reoli risg yn cael ei ddwyn yn ôl i'r cyfarfod nesaf gyda diweddariad ar sylwadau rheolwyr a gwybodaeth ynghylch sut y bydd yr argymhellion yn cael eu trin.**

**Cam Gweithredu A33 - Bod y Grŵp Llywodraethu Archwilio'n ystyried y broses lle mae'r Heddlu'n anghytuno â'r argymhellion a wnaed gan TIAA yn ystod archwiliad mewnol.**

**Cam Gweithredu A34 – Bod Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n derbyn copi o'r Polisi Rheoli Risg, y Fframwaith Rheoli Risg, ac unrhyw wybodaeth gysylltiedig arall.**

### d. Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol Terfynol

Ystyriodd y pwyllgor Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol Terfynol a chynghorodd JM fod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Aelodau'n ddiweddariad o'r adroddiad drafft a ystyriwyd yn y cyfarfod blaenorol ac nad oedd unrhyw newidiadau wedi'u gwneud.

### dd. Ystyried Cynllun Archwilio Mewnol 2024/2025

Cyflwynodd JM Gynllun Archwilio Mewnol 2024/2025 a chynghorodd fod dau adolygiad wedi'u dileu gan eu bod nhw wedi'u canslo.

## 9. Adroddiad Cynnydd ar Waith Ymchwiliol Pensiynau

Rhoddodd DR ddiweddariad am y cynnydd ar y gwaith Ymchwiliol Pensiynau. Canfu'r archwiliad bod dau o'r 19 gweithiwr a wiriwyd yn cyfrannu'r cyfraddau pensiwn anghywir. Cadarnhaodd DR fod prosesau newydd mewn grym er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr ar y cyfraddau pensiwn cywir, sy'n golygu bod gwiriadau'n cael eu cynnal yn fisol yn hytrach na'r gwiriadau diwedd blwyddyn a oedd yn cael eu cynnal o'r blaen. Taenlen wedi'i chreu a'i phoblogi gyda data byw bob mis yw'r gwiriadau, sydd wedi'u cytuno gan yr uwch reolwr cyllid a systemau busnes. Yna, ymgymerir â gwaith i groesgyfeirio bod unigolion ar y

band pensiwn cywir. Ymgymerwyd â'r ymarfer hwn ym mis Medi a chanfu mai dim ond un unigolyn oedd ar y band anghywir. Ymchwiliwyd i hyn a chanfu bod yr unigolyn ar y gyfradd anghywir oherwydd camgymeriad gweinyddol. Gan fod hyn wedi'i nodi fel rhan o wiriad misol, am ei fod wedi'i ganfod ddigon cynnar, ni fyddai'n golygu unrhyw broblemau ariannol hirdymor ar gyfer yr unigolyn dan sylw.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad ac roeddent yn fodlon â'r gwaith sydd wedi'i wneud er mwyn monitro'r sefyllfa hon.

## 10. Ystyried diweddariad ar y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol

Cynghorwyd yr Aelodau bod adolygiad cynhwysfawr o drefniadau llywodraethu wedi'i gynnal o fewn SCHTh. Yn dilyn yr adolygiad hwn, mae argymhellion wedi'u cyflwyno, ac yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfarfodydd cyntaf Grŵp Prosiectau a Chyllid ar y cyd yr Heddlu a SCHTh a'r Grŵp Plismona ar Sail Tystiolaeth, yn ogystal â chyfarfod cyntaf y Bwrdd Plismona newydd o dan ei gylch gorchwyl newydd.

O ystyried hyd a lled y gwaith, cynghorodd CM fod yr adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol dal yn mynd rhagddo, ond bwriedir cyflwyno drafft i'r Pwyllgor yng nghyfarfod fis Rhagfyr.

## 11. Rhestr Wirio Rheolaeth CIPFA

Cyflwynodd EH adroddiad manwl o'r camau gweithredu o restr rheolaeth y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae CIPFA wedi ffurfio matrics hunanasesu i alluogi cyrff cyhoeddus i asesu eu trefniant cynllunio ariannol yn erbyn ymarfer sefydledig. Bob blwyddyn, ar ôl i'r broses gyllideb a'r cynllun ariannol tymor canolig ddod i ben, mae'r Heddlu'n asesu ei drefniadau ar gyfer ffurfio ei gynlluniau ariannol yn erbyn y matrics hwn. Ar gyfer cylch 2024/25, cafodd y matrics ei gwblhau a'i drafod yn Seminar y Cyd-bwyllgor Archwilio ar y Datganiad o Gyfrifon a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2024. Cafodd y matrics gorffenedig ei drafod hefyd yng Nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ar 31 Gorffennaf 2024. Proses hunanasesu a gynhelir gan aelodau'r Adran Gyllid yw hyn yn bennaf, gyda chraffu gan y Cyd-bwyllgor Archwilio. Croesewir hyn er mwyn sicrhau lefel ychwanegol o sicrwydd yn y broses hon. Er yn cydymffurfio yn erbyn yr elfennau sylfaenol a'r gofynion sy'n deillio o'r matrics, tynnodd yr ymarfer sylw at rai meysydd lle y cydnabu y gellid gwneud gwelliannau i gryfhau'r trefniadau cyffredinol.

Soniodd KC ei fod wedi'i gytuno eisoes i gael diweddariadau am gynnydd y camau gweithredu bob chwe mis yn hytrach nag unwaith y flwyddyn.

**Cam Gweithredu A35 – Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad diweddaru mewn 6 mis ar gynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn camau gweithredu o fewn Rhestr Wirio Rheolaeth CIPFA.**

## 12. Adroddiad Alldro Blynyddol 2023/24 Rheoli'r Trysorlys

Cyflwynodd ND adroddiad alldro rheoli'r trysorlys 2023/24 i'r pwyllgor. Roedd yr aelodau'n fodlon â'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

## 13. Diweddariad Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF)

Rhoddodd RJ ddiweddariad AHGTAEF i'r pwyllgor gan gadarnhau y bydd yr archwiliad PEEL nesaf yn 2025. Cynghorwyd y Pwyllgor fod gohebiaeth wedi'i derbyn gan AHGTAEF yn ddiweddar mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i'w rhaglen archwilio, sy'n cynnwys archwiliad PEEL, ac mae angen ymateb i nifer o gwestiynau allweddol erbyn 25 Hydref.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod gan yr Heddlu 29 maes y mae angen eu gwella. Daw 23 o'r rhain o archwiliadau PEEL. Mae 56 argymhelliad ar agor. Bydd Sarah Lewis, Arweinydd Cyswllt Heddlu AHEF, a Mick Montford, yn ymweld â'r Heddlu cyn hir, gyda golwg ar gwrdd ag arweinwyr er mwyn ystyried cynnydd yn erbyn y meysydd y mae angen eu gwella.

## 14. Adroddiad TGCh mewn ymateb i Gwestiynau'r Aelodau Archwilio

Rhoddodd SH drosolwg i'r pwyllgor o'r adroddiad TGCh. Cadarnhaodd SH bod yr adroddiad yn dangos bod prosesau mewn grym i sicrhau bod yr Heddlu mewn sefyllfa gadarn pe bai trychineb yn digwydd drwy ymosodiad seiber neu doriad pŵer er enghraifft. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at y cynllun wrth gefn sydd mewn grym ar gyfer ymdrin â hynny. Mewn perthynas ag ymyriad ar gyflenwad pŵer, mae generaduron ar gael er mwyn sicrhau na fyddai'r offer yn methu yn erbyn y math hwnnw o ymyriad.

Fel rhan o'r cynlluniau, mae angen sicrhau bod copi wrth gefn o'r data ar gael. Mae Microsoft ei hun yn cadw 4 copi ar wahân o bopeth, ond mae'n dweud y dylid cael copi ychwanegol ar wahân wrth gefn, ac mae darn o waith yn cael ei gyflawni er mwyn nodi datrysiad wrth gefn ar wahân fel mesur methu diogel ychwanegol. Holodd yr aelodau pa un ai a oedd mynediad amhriodol yn cael ei roi i rai unigolion, a chawsant eu cynghori bod hyn wedi'i leihau i'r nifer lleiaf posibl a bod nifer sylweddol o reoliadau mewn grym o gwmpas y gweithgareddau a gyflawnir gan yr unigolion hynny.

Cynghorwyd yr aelodau bod profi'n digwydd er mwyn sicrhau bod cadernid seiber yn dilyn unrhyw fath o ymosodiad seiber neu ddigwyddiad arall. Mae'r profi'n cael ei ddiweddaru o hyd ac mae'n unol â'r Ganolfan Fonitro Genedlaethol.

Cafwyd trafodaeth fanwl mewn perthynas â rheolaeth sydd mewn grym i ddiogelu'r sefydliad.

## 15. Diweddariad ar Reoli Gwybodaeth a Chynllun Gweithredu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Rhoddodd DJ ddiweddariad i'r pwyllgor ar reoli gwybodaeth a chynllun gweithredu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Yn 2024, cyfeiriwyd wyth achos o dorri rheoliadau data at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Heddlu'n dilyn meini prawf cyfeirio Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu wrth benderfynu pa un ai a i gyfeirio achos at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ai peidio neu hysbysu gwrthrych data. Mae dau achos o dorri rheoliadau data yr adroddwyd amdanynt wedi'u hadrodd wrth yr Adran Safonau Proffesiynol.

Cynghorodd DJ fod yr Uned Ddatgelu wedi bod yn wynebu ôl-groniad mawr o waith o ran Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data. Mae hyn yn ymwneud yn rhannol â materion staffio a wynebir gan yr Uned. Mae oedi o ran cwblhau achosion datgelu'n cyflwyno peryglon i wrthrychau data, y broses ddiogelu, yr Heddlu a'r Rheolwr Data.

Ar 9 Mai 2024, rhoddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth Hysbysiad Gorfodi i'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r ffordd y mae'r Heddlu'n trin ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Yn dilyn llawer iawn o waith a chynllun gweithredu cysylltiedig Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae nifer y ceisiadau rhyddid gwybodaeth sy'n weddill wedi lleihau'n sylweddol, ac ar 13 Medi, roedd 8 achos rhyddid gwybodaeth yn hwyr. Y gofyniad yw clirio'r holl achosion sy'n hwyr erbyn dyddiad yr Hysbysiad Gorfodi, sef 30 Tachwedd. Ar 19 Medi, roedd pob achos o'r fath wedi'i gwblhau.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, yn 2023, roedd yr Heddlu'n ddarostyngedig i archwiliad cydsyniol o'r swyddogaeth Rhyddid Gwybodaeth. Cyhoeddwyd ugain argymhelliad. Hyd yn hyn, mae deg wedi'u cwblhau. Mae gwaith yn parhau ar gyfer cwblhau'r argymhellion cyn archwiliad dilynol olaf Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a fydd yn digwydd yn ystod yr wythnos yn cychwyn 21 Hydref 2024. Mae staff yn gweithio ar gwblhau'r argymhellion. Mae cyfarfod yn cael ei drefnu gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl ar gyfer yr wythnos yn cychwyn 7 Hydref er mwyn rhoi gwybod i'r Dirprwy Brif Gwnstabl am gynnydd yn barod ar gyfer archwiliad dilynol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Disgwylir i'r Heddlu ddarparu ystadegau cydymffurfiaeth misol mewn perthynas â cheisiadau rhyddid

gwybodaeth a cheisiadau mynediad at ddata gan y testun i Uned Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data Cenedlaethol yr Heddlu Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

Gofynnodd KC am wybodaeth mewn perthynas â ffigurau ceisiadau mynediad at ddata gan y testun a pham oedd y nifer a gwblhawyd ar amser ym mis Awst wedi lleihau'n sylweddol. A oedd hyn yn ymwneud â gwyliau blynyddol neu grynhoad staff ar geisiadau rhyddid gwybodaeth? Cynghorodd DJ mai cymysgedd o'r ddau ydoedd, fodd bynnag, dylid nodi bod aelodau staff gwahanol yn ymdrin â cheisiadau rhyddid gwybodaeth a cheisiadau mynediad at ddata gan y testun.

Cynghorodd CM fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Arolygydd Delyth Evans i archwilio sut y gall SCHTh ymgymryd â gwaith craffu pellach er mwyn cynorthwyo yn y maes hwn, gan werthfawrogi bod mecanweithiau mewnol mewn grym hefyd.

## 16. Diweddariad ynghylch Gweithgarwch Twyll

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad gan SD am weithgarwch twyll lle mae 5 swyddog ac un aelod o staff yr heddlu'n destun ymchwiliadau twyll neu ymchwiliadau lladrad cysylltiedig sy'n cael eu goruchwylio gan yr adran safonau proffesiynol a'r uned wrthlygredd. Does dim ymchwiliadau twyll gweithredol yn mynd rhagddynt ar gyfer ymddygiad ar ddyletswydd ar gyfer swyddogion na staff yr heddlu, fodd bynnag, mae un ymchwiliad i dwyll posibl oddi ar ddyletswydd yn mynd rhagddo.

## 17. Diweddariad ar DGCh Aelodau a Mynediad at Bapurau

Rhoddodd NE ddiweddariad i'r aelodau mewn perthynas â ThGCh a mynediad at bapurau a chynghorodd na fydd angen cyhoeddi gliniadur Heddlu os yw profi'n llwyddiannus. Cynigir bod Aelodau'n cael mynediad gwestai i *Teams*, a fydd yn caniatáu iddynt gael mynediad i'r holl bapurau sydd eu hangen arnynt. Bu'r profi mewnol yn gadarnhaol, a gobeithir profi gyda'r Aelodau yn y dyfodol agos.

## 18. Diweddariad ar Raglen Gynefino'r Aelodau

Rhoddodd NE ddiweddariad ynghylch rhaglen gynefino'r aelodau a chadarnhaodd bod y ddogfen wedi'i datblygu drwy ystyried rhaglenni cynefino SCHTh, cylch gorchwyl y Pwyllgor, a dadansoddiad o anghenion hyfforddi'r aelodau er mwyn sicrhau bod popeth wedi'i gynnwys. Mae'r rhaglen ddrafft wedi'i rhannu'n saith pennawd sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r rolau o fewn y Cyd-bwyllgor Archwilio. Gofynnodd NE i bob aelod ystyried y ddogfen a dywedodd y byddai'n cwrdd ag aelodau'n unigol er mwyn trafod unrhyw gyfleoedd eraill sydd angen. Cadarnhaodd NE hefyd bod rhestr o acronymau'n cael ei llunio gan gydweithwyr

o fewn yr Heddlu ac y byddai'n cael ei rhannu gyda'r aelodau unwaith y bydd wedi'i chwblhau.

Croesawodd DM y ddogfen, ond teimlai bod amseru rhai o'r eitemau o bosibl yn uchelgeisiol. Fodd bynnag, byddai'n codi'r rhain mewn ymgynghoriad ag NE.

**Cam Gweithredu A36 – Bod NE yn cwrdd ag aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n unigol er mwyn trafod y rhaglen gynefino ac ystyried yr amserlenni o fewn y ddogfen.**

**19. Diweddariadau'r Aelodau, gan gynnwys materion o Hyfforddiant Cyd-bwyllgor Archwilio Cymru Gyfan**

Diweddariad yr Aelodau

Rhoddodd JJ ddiweddariad mewn perthynas â mynychu cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 1 Hydref a diweddariad ar y cyfarfod Pobl, Diwylliant a Moeseg. Mae JJ yn treulio diwrnod gyda Linda Williams a'r Adran Adnoddau Dynol ar 7 Hydref er mwyn cael gwell dealltwriaeth o waith yr Adran Adnoddau Dynol, y pwysau sydd arnynt a'r heriau maen nhw'n eu hwynebu.

Cadarnhaodd FS ei fod wedi mynd i gyfarfod o'r Bwrdd Strategol TGCh, a aeth yn dda, ac roedd eisiau pwysleisio i TIAA eu bod yn cael trwydded *PowerBI* am ddim gyda Microsoft 365, a fydd yn helpu i ddatblygu dangosfyrddau a dadansoddi data, a allai helpu gydag archwiliadau yn y dyfodol.

Bydd KC yn mynd i gyfarfod y grŵp Ystadau Strategol ymhen ychydig wythnosau. Aeth i'r cyfarfod cyllid strategol hefyd, a oedd yn ddiddorol ac addysgiadol. Ni adroddwyd am unrhyw bryderon. Gan fod Caroline nawr yn aelod llawn o'r Pwyllgor, dywedodd KC y bydd NE yn cynnal adolygiad o'r byrddau y mae aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n mynd iddynt fel rhan o'u rôl.

**Cam Gweithredu A37 – Bod adolygiad yn cael ei gynnal gydag Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio o ba fyrddau y dylent eu mynychu fel rhan o'u rôl gyda'r Cyd-bwyllgor Archwilio**

**20. Unrhyw fusnes arall**

Soniodd JJ fod yna ddogfen o'r enw sganio gorwel yn y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yr oedd wedi mynd iddo a fyddai'n ddogfen ddefnyddiol i bob aelod geisio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr heriau. Cynghorodd GM fod adroddiadau sganio gorwel yn mynd gyda'r adroddiad risg corfforaethol pan mae'n cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Archwilio.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

**6 Tachwedd 2024 – Seminar ar y Datganiad o Gyfrifon**

**27 Tachwedd 2024 – Seminar Cyllid**

**27 Tachwedd 2024 – Y Cyd-bwyllgor Archwilio i gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon yn ffurfiol (yn syth ar ôl y Seminar Cyllid)**

**5 Rhagfyr 2024 – Cyd-bwyllgor Archwilio**

| | CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR (2 Hydref 2024) | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w ddatblygu gan** | **Cynnydd** |
| A 27 | Bod dogfen ychwanegol yn cael ei datblygu i ategu'r cynllun gwaith presennol sy'n cynnwys mecanwaith i Aelodau gweld unrhyw newidiadau agenda. | NE | **Ar y gweill:** Mae dogfen newydd wedi'i pharatoi er ystyriaeth yr Aelodau. |
| A 28 | Bod adroddiad ar berfformiad dangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas â'r targed 10 diwrnod ar ymatebion archwiliadau mewnol yn cael ei roi i'r Pwyllgor ar sail chwarterol. | Grŵp Llywodraethu Archwilio | **Ar y gweill:** Bydd yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod a fydd yn cael ei gynnal fis Ionawr 2025. |
| A 29 | Bod TIAA yn ystyried nifer y dyddiau a bennir i adolygiadau penodol er mwyn sicrhau bod amserlenni'n ymarferol ar gyfer y maes sydd dan adolygiad. | FR/JM | **Ar y gweill:** Unwaith y bydd hyn wedi'i ystyried, rhoddir diweddariad i'r Pwyllgor. |
| A 30 | Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau er mwyn tynnu sylw at y newidiadau i'r Safonau Llywodraethu Archwilio a'r hyn mae'n ei olygu ar gyfer safonau adrodd. | FR | **Ar y gweill:** Cyflwynir hyn i'r cyfarfod sydd i'w gynnal ym mis Ionawr. |
| A31 | Bod SCHTh yn cymryd rhan arweiniol o ran sicrhau bod yr argymhellion a geir o fewn yr adolygiad sicrwydd o Gofnodi Troseddau'n cael eu datblygu, gan sicrhau nad oes dyblygu o ran mecanweithiau adolygu. | SCHTh | **Ar y gweill:** Mae cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr. |
| A32 | Bod yr adroddiad o'r adolygiad sicrwydd o reoli risg yn cael ei ddwyn yn ôl i'r cyfarfod nesaf gyda diweddariad ar sylwadau rheolwyr a gwybodaeth ynghylch sut y bydd yr argymhellion yn cael eu trin. | GM | **Ar y gweill:** Rhoddir diweddariad i'r Pwyllgor. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A33 | Bod y Grŵp Llywodraethu Archwilio'n ystyried y broses lle mae'r Heddlu'n anghytuno â'r argymhellion a wnaed gan TIAA yn ystod archwiliad mewnol. | Grŵp Llywodraethu Archwilio | **Wedi'i gwblhau:** Trafodwyd hyn yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Llywodraethu Archwilio. Cytunwyd y byddai sylwadau'r rheolwyr yn nodi pa un ai a dderbyniwyd yr argymhellion ai peidio, gyda sylwadau priodol. Nodwyd hefyd bod canfyddiadau ar gyfer pob archwiliad yn cael eu trafod yn y cyfarfod clo. Bydd cyfle arall i gwrdd â TIAA os yw'r adran yn teimlo bod yr argymhellion yn afresymol. |
| A34 | Bod Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n derbyn copi o'r Polisi Rheoli Risg, y Fframwaith Rheoli Risg, ac unrhyw wybodaeth gysylltiedig arall . | NE | **Wedi'i gwblhau:** Mae'r wybodaeth wedi'i rhannu â'r Aelodau. |
| A35 | Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad diweddaru mewn 6 mis ar gynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn camau gweithredu o fewn Rhestr Wirio Rheolaeth CIPFA. . | CC | **Ar y gweill:** Bydd adroddiad yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod sydd i'w gynnal ym mis Mawrth 2025. |
| A36 | Bod NE yn cwrdd ag aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n unigol er mwyn trafod y rhaglen gynefino ac ystyried yr amserlenni o fewn y ddogfen. | NE | **Wedi'i gwblhau:** Mae NE wedi derbyn sylwadau gan Aelodau a oedd yn fodlon â |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | chynnwys y rhaglen a gofynnodd am i'r amserau gael eu diwygio ar gyfer rhannau cynnar y rhaglen gynefino. |
| A37 | Bod adolygiad yn cael ei gynnal gydag Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio o ba fyrddau y dylent eu mynychu fel rhan o'u rôl gyda'r Cyd-bwyllgor Archwilio | NE | **Wedi'i gwblhau:** Pennwyd Aelodau i'r byrddau a oedd orau ganddynt / y byrddau y gwnaethant gais ar eu cyfer. |